ASESIAD A CHYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

CYFARFOD Y GRŴP TECHNEGOL RHANBARTHOL

Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar ddydd Iau 16eg Medi 2004, am 2.00pm
Ystafell 3, Cwrt Astral, Parc Ynni Baglan

Yn bresennol

Geoff White (Cadeirydd)	CBS Castell-nedd Port Talbot
Howell Beaton	CBS Castell-nedd Port Talbot
Ceri Morris	CBS Castell-nedd Port Talbot
Carol Williams	Cyngor Sir Penfro / Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Dave Harries	Cyngor Sir Penfro
Steve Bool	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Graham Dorrington	Cyngor Sir Ceredigion
Nick Oakes	Cyngor Sir Ceredigion
Clifford Parish	Dinas a Sir Abertawe
Alison Thomas	Dinas a Sir Abertawe
Audrey Evans	Asiantaeth yr Amgylchedd (De-orllewin Cymru)
Neil Bateman	Cyngor Sir Caerfyrddin
Phil Williams	Cyngor Sir Caerfyrddin
Ruth Brown	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Sue Martin	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Cathy O'Brien	Llywodraeth Cynulliad Cymru (Uned Strategaeth Wastraff)
Miranda Lewis	Asiantaeth yr Amgylchedd

1. **Ymddiheuriadau**

Philip Marks	CYLCH

2. **Cofnodion cyfarfod y Grŵp Technegol a gynhaliwyd ar 13eg Awst 2004**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.

Eitem 4: Adroddodd CP y byddai'r Cynghorydd A Robinson yn gweithredu fel dirprwy gynrychiolydd ar Fforwm yr Aelodau a gofynnodd am gael ei gynnwys ar y rhestr bostio. **Gweithredu**: CM.

3. **Adendwm y CGRh:**

- **Cynnydd ar waith Asiantaeth yr Amgylchedd**

Dosbarthodd ML gyfres o fapiau i gyd-fynd â'r adroddiad Mapio GIS a rhoddodd grynodeb o'r prif bwyntiau.

Nodwyd / cytunwyd ar y pwyntiau canlynol.

- Diwygiwyd yr adroddiad i gynnwys y sylwadau a wnaed yn y cyfarfod blaenorol;
- Ychwanegwyd haen hygyrchedd (h.y. ffyrdd, rheilffyrdd ac ardaloedd trefol) at y model. Mae clustogfeydd 5 milltir a 2 km wedi'u cynnwys ar y mapiau;
- Nid yw'r mapiau'n cynnwys haen dopograffaidd na daeareg. Byddai gosod haenau o'r fath yn effeithio'n sylweddol ar y map cyfansawdd terfynol; ac
- Er mwyn mireinio'r mapiau ymhellach, mae angen diffinio'r ardaloedd 'trefoledig' yn well ar draws y rhanbarth. Gallai'r ffordd ymlaen gynnwys ymgorffori data Cyfrifiad 2001.

Adroddodd GW fod cyfarfod wedi'i gynnal rhwng AA, LlCC a Chastell-nedd Port Talbot i gytuno ar y ffordd ymlaen ac i benderfynu sut y dylid ariannu / darparu adnoddau ar gyfer gwaith o'r fath.

Nodwyd bod AA wedi gwneud llawer o waith ar y mapiau hyd yma ond eu bod wedi dweud na allant ddarparu adnoddau pellach ar gyfer y maes gwaith hwn. Ar yr un pryd, nododd LlCC eu bod yn dymuno parhau â'r gwaith hwn a'i estyn ar sail Cymru gyfan. Felly mae angen ystyried yr angen am gyflogi ymgynghorwyr allanol i barhau â'r gwaith.

Cytunwyd ar y canlynol:

- Mae angen mireinio'r mapiau ymhellach, felly nid yw'n briodol cyflwyno unrhyw fapiau i Fforwm yr Aelodau;
- Dylid paratoi a chyflwyno adroddiad cynnydd i Fforwm yr Aelodau ynghyd ag adroddiad 'ysgrifenedig' AA ar yr Ymarfer Mapio GIS. **Gweithredu**: GW / CM;
- Dylai LlCC ymgymryd â'r gwaith pellach y mae ei angen ar frys (h.y. cyflogi ymgynghorwyr i gwblhau'r gwaith). **Gweithredu**: SM / CO;
- Dylai'r GTRh ddarparu'r mewnbwn angenrheidiol i sefydlu'r fanyleb ar gyfer y prosiect ymchwil. **Gweithredu**: Pawb.

- **Cynnydd ar waith y Grŵp Gwastraff Trefol Rhanbarthol**

Adroddodd HB fod y Grŵp Swyddogion Trefol Rhanbarthol yn aros am adroddiad gan SLR am y gofynion isadeiledd ar gyfer y rhanbarth.

Mae'r adroddiad yn ystyried gwastraff masnachol yn ogystal â gwastraff trefol. Gallai'r adroddiad gynnig ateb i'r hyn y mae angen ei gynnwys mewn CDUau. Yn y tymor hir mae'n debygol y bydd sefyllfa lle na fydd angen claddu sbwriel bellach, ond bydd problem yn bodoli yn y tymor byr.

Mae'n bwysig bod yr adroddiad hwn yn cael ei fwydo i'r broses ar y cyfle cyntaf. **Gweithredu**: HB.

4. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Cytunwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal am 2.00pm ar ddydd Llun 1af Tachwedd.

5. **Unrhyw fater arall**

Cyfeiriodd CO at y papur *Gallu Cynllunio Gwastraff a Datblygu Isadeiledd* a ddosbarthwyd. Pwysleisiwyd pwysigrwydd y wybodaeth a gofynnwyd i'r rheiny nad oeddent wedi ymateb i holiadur diweddar LlCC wneud hynny.

Cododd CO yr angen i'r Adendwm gynnwys meini prawf cynllunio ar gyfer gweithfeydd trin gwastraff peryglus, sy'n fater ar wahân i'r ymarfer GIS, sydd wedi'i anelu at safleoedd claddu sbwriel.

Nodwyd y dylai pob awdurdod geisio casglu cymaint o ddata â phosib trwy'r broses gynllunio. Mae'n bosib bod angen cytuno ar brotocol i gyflawni'r fath nod. Awgrymwyd y gallai protocol o'r fath fodoli yn y POS. **Gweithredu**: SB i'w sefydlu.

Adroddodd SM y dylai'r ymgynghorwyr ddosbarthu ffurflenni Holiadur/Arolwg Gwastraff C&D erbyn canol Hydref.